Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 11 Tachwedd 2010, 9.30–11.30 Ystafell Gynadledda D

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: (Cadeirydd) | Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) |
| | Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)<br>Keith Bush (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)<br>Helen Birtwhistle (Pennaeth Cysylltiadau Allanol)<br>Sulafa Halstead (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)<br>Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)<br>Mair Parry-Jones (Pennaeth PTRS)<br>Kathryn Potter (Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau)<br>Connie Robertson (Pennaeth yr Ystadau a TGCh)<br>Craig Stephenson (Pennaeth y Rhaglen Newid)<br>Sian Wilkins (Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth)<br>Ian Summers (Pennaeth yr Uned Gorfforaethol)<br>Cathryn Newman (Ysgrifenyddiaeth) |
| Arsylwi: | Jane Glass, Uned Gorfforaethol |

1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad gan Adrian Crompton. Nid oedd dim buddiannau i'w datgan.

2. Cyfathrebu â staff

Ian Summers i ddrafftio nodyn am drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer tudalen newyddion y fewnrwyd.

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Hydref 2010

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4. Y wybodaeth ddiweddaraf am strwythurau ar gyfer y dyfodol

Dywedodd Claire Clancy y byddai staff yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau i strwythurau ar gyfer y dyfodol yn cael gwybodaeth yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Byddai nodyn yn cael ei gyhoeddi ar y dudalen newyddion erbyn diwedd y dydd. Nid oedd yr atborth cychwynnol oddi wrth yr Undebau Llafur wedi codi materion sylweddol ond roedd aros o hyd am yr atborth ffurfiol. Byddai'r cyfarfod i'r holl staff ar 15 Tachwedd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau a heriau 2011.

Cam i'w gymryd: holl aelodau'r Bwrdd i anfon eu sylwadau am y papur 'Gwella Hyblygrwydd Staff' at Steven O'Donoghue cyn gynted ag sy'n bosibl.

5. Adroddiad Rheolaeth Ariannol

Cyflwynodd Steven O'Donoghue y papur, a oedd yn amcangyfrif alldro diwedd blwyddyn o 0.6 y cant o dan y gyllideb. Un risg allweddol oedd darparu'r rhaglen newid ac roedd angen penderfyniadau ynghylch a ddylid paratoi i ddarparu lle'r oedd prosiectau heb fod yn darparu, neu a ddylid dychwelyd arian i floc Cymru. Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod rheoli gwariant lle'r oedd ffactorau y tu hwnt i reolaeth o dan gytundeb Siemens.

Camau i'w cymryd:

(1) Claire Clancy i gynnwys gwybodaeth am brosiectau o fewn y Rhaglen Newid yn ei llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid;

(2) Steven O'Donoghue i egluro'r tanwariant a'r gorwariant o ran y prosiectau sy'n weddill, i leihau'r risg o statws Coch i Felyn;

(3) Craig Stephenson i ystyried symud cyfarfod y Bwrdd Newid ymlaen i 17 Tachwedd;

(4) Dianne Bevan i drafod y gwariant contract Siemens â Terry Chinnock.

## Papurau drafft y Comisiwn

6. Cynlluniau Trefniadol yn y Dyfodol

Cytunwyd ar y papur yn amodol ar ddiweddaru paragraff 3.13 i wahaniaethu rhwng y gwahanol geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

7. Gweithgareddau cyfathrebu i gefnogi ymgyrch Pleidleisiwch 2011

Cyflwynodd Helen Birtwhistle y papur ac yn dilyn trafodaeth, cytunwyd ar y pwyntiau a ganlyn:

(1) Dylid cryfhau rhan gyntaf y papur er mwyn hybu sefyllfa lles y cyhoedd, a dylid cryfhau hefyd y paragraff am ymwneud gan Aelodau'r Cynulliad;

(2) Dylid gosod i mewn gyfeiriadau at 'cyfryngau cymdeithasol' ac 'addysg';

(3) Dylid cael eglurhad ynghylch costau - Helen i ganfod mwy yn eu cylch a dosbarthu fersiwn derfynol o'r papur i gael sylwadau arno

8. Ein hymrwymiad i gynaliadwyedd

Cytunwyd ar y papur drafft yn amodol ar fod Connie Robertson yn ychwanegu cyfeiriad at y Wobr Rheoli Cyfleusterau Cynaliadwy a enillwyd yn ddiweddar.

9. Gwell Gwasanaethau Dwyieithog

Roedd y papur yn gofyn am gytundeb y Comisiwn ar Gynllun Iaith Gymraeg newydd yn 2011, a thrafododd y Bwrdd y risgiau, terminoleg ac opsiynau o ran ymgynghori. Cytunwyd y dylid ymestyn ychydig ar y papur i sicrhau bod y Comisiwn yn gwybod am unrhyw broblemau posibl, ac y dylid newid teitl y papur.

10. Strategaeth Ryngwladol

Roedd y papur yn cynnig fframwaith ar gyfer datblygu safle'r Cynulliad ar y llwyfan rhyngwladol. Cytunwyd y dylid cynnwys cyfeiriad at ymwneud gweithredol ym mharagraff 6.4, ac y dylid gwirio'r cyfeiriad at y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Dylid ehangu ar y cyfeiriad at waith y pwyllgorau'n gyffredinol.

Nodwyd bod cydweithio da wrth baratoi'r papur eisoes wedi cryfhau perthnasoedd.

11. Oriau agor yr ystâd

Roedd y papur yn cynnig newidiadau i oriau agor y swyddfa ar gyfer gaeaf 2010-11. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch gostwng yr oriau agor yn y misoedd sy'n arwain at y Refferendwm a'r Etholiad. Cytunwyd ar y pwyntiau a ganlyn:

(1) Connie Robertson i ychwanegu at y papur y sôn am bethau eraill a wneir yn yr ystâd i wella medrusrwydd ac i ymateb i alw;

(2) Dianne Bevan i drafod y papur â'r Comisiynwyr cyn cyfarfod y Comisiwn.

## Cloi'r cyfarfod

12. Unrhyw fater arall.

Dim.

13. Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf

Claire Clancy a'r Cyfarwyddwyr i wirio'r eitemau sydd i'w cynnwys ar yr agenda.

Ysgrifenyddiaeth
Tachwedd 2010